Cerdyn post o'r Nièvre

Ceir beddau Cymraeg ar lannau'r Loire.

Denu pwdleriaid gorau'r byd oedd dymuniad y teulu Dufaud, diwydianwyr mawr ardal y Nièvre ar gyrion gorllewinol Bwrgwyn. Troesant eu golygon felly tua Chymru a Merthyr Tudful, ac erbyn hydref 1818 roedd yna William, Thomas a Morgan yn gweithio yn efail Trézy. Denwyd rhagor o Gymru i waith haearn newydd Fourchambault ym 1821, a chynigiwyd cyflog ffafriol i'r arbenigwyr o dramor a fedrai hyfforddi'r gweithwyr lleol. Sylweddoliad rhyfeddol imi oedd bod yna hanner Cymry, neu led-Gymry yn ôl pob tebyg yn byw yn yr ardal hon.

Darganfyddiad yr un mor ddifyr oedd pentref glofaol La Machine. Y capel fydd yn rhoi enw ar y pentref yn aml yng Nghymru; meddylier am Foreia, Capel Seion a Phisga, oll o fewn rhyw bum milltir i'w gilydd ar y ffordd rhwng Aberystwyth a Phontarfynach. Peiriant roddodd enw ar La Machine. Ffordd arloesol o echdynnu trysorau cudd y ddaear i'r wyneb gan ddefnyddio grym ceffylau a dyfeisgarwch dyn. Ond fel yng Nghymru, twristiaid yn unig ddaw i'r pwll glo heddiw. Ac wrth imi giwio gyda'r ymwelwyr yng ngwres Awst i syllu ar eu gorffennol diwydiannol, roedd hi'n anodd peidio gofyn: ble mae'r beddau Cymraeg?

http://ystamp.cymru | @ystampus | Facebook: ystampus | Instagram: cylchgrawn_y_stamp | golygyddion.ystamp@gmail.com